

## Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Irwyn Jones (Tanyfron) y penwythnos diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gwen, ei briod; ac â'i frawd Ifor Jones (Nantglyn) ac â gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Cyflwynwn hwy i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddiwn y bydd Duw yn cysgodi drostynt. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Mary, Dewi, a Shian (Llanfair) ac Eryl a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer, Eirwen, oedd yn byw yn Yr Eidal. Ein gobaith yw y bydd Iesu ei hun yn gwmni ac yn gysur iddynt hwythau fel teulu.
- Parhawn i gofio am y cleifion yn ein plith ac anfonwn ein cofion at Gwyneth Griffiths ac Edith Maloney (Henllan) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion hefyd at Falmai Evans (Saron) sydd wedi dod adre o'r ysbyty erbyn hyn. Dymunwn adferiad iechyd buan iddi hi a phawb arall sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

## Casgliad Sasiwn Genhadol y Chwiorydd

Mae llawer o'r chwiorydd yn gweithio'n ddiwyd iawn yn eu heglwysi, yn yr Ofalaeth ac yn yr Henaduriaeth, a phob blwyddyn, fe wneir casgliad arbennig sy'n gwneud hi'n bosibl i Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyfrannu'n hael at waith Gweithwyr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth a Phrosiectau gartref a thramor. Mae'n dda cael adrodd bod chwiorydd Eglwys Bro Aled wedi cyfrannu £540.00 tuag at y casgliad arbennig hwn eleni. Diolch i chi am eich haelioni.

## Bws Mini i Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Bydd bws mini 'Cart y Plwyf' yn mynd â chriw o'r Fro i'r Sasiwn ym Methesda ar ddydd Mercher, Mai 4ydd. Os oes gennych ddi-ddordeb i deithio ar y bws, cysylltwch â Llinos Rees (01745) 550261 erbyn Mai 1af, os gwelwch yn dda. Y cyntaf i'r felin.....!

## I ddod

- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Eglwys Unedig Jerusalem, Bethesda dydd Mercher, Mai 4ydd. Bydd Mererid Mair a Llinos Mai, Eglwys Noddfa, Caernarfon yn annerch am 2.00, a'r Athro Mari Lloyd Williams, Waengoleugoed yn annerch am 5.30. Daeth cais gan Mari hefyd i chi ddod â nwyddau newydd hefo chi i'r Sasiwn i'w gwerthu yn y siop sydd ganddynt yn Waengoleugoed (e.e. dilladau bach, hancesi poced, sebon, anrheg mewn bocs, addurniadau, papur sgwennu, hetiau, sgarffiau ayb, neu anrhegion nad ydych eu hangen)
- **DARLITH DYRCHAFael** – “Sut y cawsom y Beibl?” yn Ffestri Llansannan nos Iau, Mai 5ed am 7.30 gyda'r Parch. Ddr Watcyn James yn darlithio. Croeso i bawb.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24<sup>ain</sup> Ebrill 2016

## Darllenid y Dydd

Ioan 16: 12-15

(BCND tud.121 / BCN tud.111)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i'r oedfaon bore ma. Wrth i'r byd ddathlu penblwydd Elisabeth II yn 90 wythnos yma, maen nhw'n siarad ac yn rhyfeddu at yr holl wasanaeth mae hi wedi ei roi i'w rôl fel Brenhines. Dydi o'm o bwys pa farn sydd gennych chi am frenhiniaeth neu fonarchiaeth – ei fanteision a'i anfanteision, cywir neu anghywir, mae'n rhaid cyfaddau fod y ffaith ei bod wedi teyrnasu am 64 mlynedd gan barhau i gwblhau ei dyletswydd yn rhywbeth clodwiw.

Da ni wedi gweld y fideo enwog yna o'r frenhines yn addo gwasanaethu'r deyrnas nes diwedd ei hoes gryn dipyn o weithiau yn ddiweddar. Mae edrych yn ôl rŵan ar fywyd o wasanaeth gorfodol, di-ethol y frenhines yn ennyn parch o ganlyniad i'w dyfalbarhad a'i chysondeb – i rywun mor ifanc wneud addewidion mor ddifrifol o wasanaeth, a chadw atynt hyd heddiw ac i'r dyfodol.

Arweiniodd hyn i mi feddwl, wrth wyllo hanes bywyd Elisabeth II a gweld mor braf a chrand mae rhai agweddau wedi bod, mae'n rhaid fod y *perks* yn gymhelliant eithaf cryf i barhau iddi ddyfalbarhau – tŷ yn dod gyda'r teitl, *company car*, gwyliâu cyson i lefydd poeth pellenig, a dynion cryf hefo gynnu yn ei hamddiffyn. Digon dymunol ydy gwneud swydd am gyhyd hefo cymhelliant fel yna!

Ond beth amdanom ni Gristnogion? Ydan ni wedi cael ein galw i fywyd o wasanaeth? Ydan ni wedi rhoi ein hunain i wasanaeth? A oes gennym ni gymhelliant i gwblhau ein tasg? Pan 'da ni'n dod i nabod yr Arglwydd Iesu fel iachawdwr personol, rydan ninnau'n rhoi ein hunain i'w wasanaeth o. Rydan ni'n rhoi ein bywydau yn llwyr i'w ddwylo fo. Mae hyn yn cael ei wneud i'r fath raddau fel bo Paul yn ein galw i roi ein cyrff fel “aberthau byw” (Rhuf 12:1). Mae'n dweud eto yn ei lythyr at y Galatiaid fod ein gwasanaeth nid yn unig i fod i Dduw, ond i bobl eraill hefyd: “Ydych, ffrindiau annwyl, dych chi wedi'ch galw i fod yn rhydd. Ond dw i ddim yn sôn am benrhyddid, sy'n esgus i adael i'r chwantau eich rheoli chi. Sôn ydw i am y rhyddid i garu a gwasanaethu eich gilydd”. (Galatiaid 5:13)

Mae gennym ni hefyd gymhelliant i barhau i ddilyn a gwasanaethu Crist: “Os 'dych chi am fy ngwasanaethu i rhaid i chi ddilyn yr un llwybr â mi. Byddwch chi'n cael eich hun yn yr un sefyllfa a fi. Y rhai sy'n fy ngwasanaethu i fydd Duw, fy Nhad, yn eu hanrhydeddu.” (Ioan 12:26). Trwy ein gwasanaeth, byddwn yn cael ein anrhydeddu gan Dduw!

Felly dowch i ni gymryd y cyfle, wrth i ni gydnabod am ba mor hir mae'r frenhines wedi ei choroni, i adnewyddu ein gwasanaeth ein hunain. Dowch i ni beidio ag anghofio cymaint mwy fydd ein trysor yn y nefoedd, a'n bod ni, nid yn unig yn gwasanaethu allan o ddyletswydd, ond hefyd allan o gariad, addoliad a diolchgarwch.

## Darllenid Wythnos Nesaf

Actau 24:24-26 (BCND tud.159 / BCN tud.145)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.
- Llun – 25<sup>ain</sup> • Bydd y **Pwyllgor Gweithredu** yn cyfarfod yn Festri Llansannan am 7.30. Aelodaeth y pwyllgor fydd trysorydd pob eglwys neu ddirprwy, swyddogion y Pwyllgor Bugeiliol a thrysorydd yr Ofalaeth.
- Mawrth – 26<sup>ain</sup> • **Cyfarfod Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych am 7.30. Y wraig wadd fydd Karen Owen.
- Mercher – 27<sup>ain</sup> • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Iau – 28<sup>ain</sup> • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 29<sup>ain</sup> • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn, a bydd y Parch. Meirion Morris yn pregethu.

### Llansannan

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Am 2.30, bydd rhwng 6 – 10 o'r aelodau yn mynd i gynnal gwasanaeth yn Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur, y tro hwn o dan arweiniad Alun Jones. Diolch i'r gweddill sydd wedi dangos diddordeb i fynd yno pan ddaw ein tro i gynnal gwasanaeth eto. Os oes gan unrhyw un arall diddordeb, plis gadewch i Mair wybod.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup> Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup> Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 gyda'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Saron am 10.00 (*sylwch ar y newid*) a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup> Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 24<sup>ain</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 1<sup>af</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.

### Banc Bwyd

Daeth llythyr i law yn diolch am ein cyfraniadau cyson i'r Banc Bwyd. Ar hyn o bryd, mae gwir angen yng nghanen Dinbych am sudd ffrwythau, diodydd ffrwythau, tatws powdwr (e.e. Smash) a phwdinau sbwnj. Maen nhw hefyd yn brin o lefrith (UHT), tomatos (mewn tun), ffrwyth (mewn tun), jam, bisgedi a siocled/fferins. Fe fyddent yn ddiolchgar os oes modd i ni gynnwys rhywfaint o'r cynnyrch uchod yn ein cyfraniad nesaf.

### Manylion Cyswllt

Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163  
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**